Cyflwyniad yng Nghynhadledd Cwmni Iaith
7 Tachwedd 2008

Presentation training session for Solicitors
16 December 2008

Yr Athro Thomas Glyn Watkin

Cyflwyniad

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am y gwahoddiad i gymryd rhan yn eich cynhadledd heddiw. Gan mai Gwas Sifil yn gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ydw i, alla i ddim nodi rhagoriaethau o ran sylwedd unrhyw gynigion sy'n cael eu gwneud neu a allai gael eu gwneud, na gwneud sylwadau arnyn nhw, ond mae eich annerch fel hyn yn rhoi'r cyfle i mi i ddisgrifio cyd-destun gwneud deddfwriaeth, sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, gan y Cynulliad. Caf y cyfle hefyd i bwysleisio'r cyfleoedd sydd ar gael, o fewn y broses o wneud deddfwriaeth, i unigolion a chyrff yng Nghymru gyfrannu eu syniadau eu hunain fel rhan o'r broses honno. Mae'r setliad datganoli newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ymhell o fod yn un hawdd ei ddeall ond gall deall y mecanweithiau cymhleth helpu o ran gwneud cyfraniadau effeithiol i'r broses o wneud deddfwriaeth. Rwy'n gobeithio'n fawr iawn felly y bydd yr hyn rwy'n mynd i'w ddweud o fudd gwirioneddol a pharhaol i'r rhai ohonoch chi sy'n ceisio'r cyfle i gyfrannu at ddatblygiadau deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg.

Setliad 2006

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael y pŵer, am y tro cyntaf, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i wneud deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru. Yr hyn a olygir wrth ddeddfwriaeth sylfaenol yw bod y Cynulliad yn gallu pasio Mesurau a chanddyn nhw rym o fewn Cymru sy'n debyg i'r grym sy gan Ddeddfau Seneddol. Yn wir, o fewn meysydd cymhwysedd y Cynulliad, gall Mesurau Cynulliad ddiwygio neu hyd yn oed ddiddymu Deddfau Seneddol y DU i'r graddau y maen nhw'n gymwys o ran Cymru. Mae'r pwerau hyn felly'n nodi

cam sylweddol ymlaen o'r sefyllfa oedd yn bodoli gynt o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 pan oedd gan y Cynulliad bŵer i wneud is-deddfwriaeth.

Fodd bynnag, er bod Deddf 2006 wedi rhoi pŵer i'r Cynulliad i basio Mesurau, chafodd y Cynulliad mo'r cymhwysedd dros unrhyw feysydd penodol o'r gyfraith ac eithrio mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun. Mae hyn yn drawiadol o wahanol i'r setliad datganoli fel mae'n bodoli yn yr Alban, lle bu'n bosib, o'r cychwyn cyntaf, i Senedd yr Alban ddeddfu ym mhob maes nad oedd wedi ei gadw yn ôl yn benodol er mwyn i Senedd y DU ddeddfu ynddo. O dan Ddeddf 2006, ni roddwyd i'r Cynulliad unrhyw feysydd cymhwysedd deddfwriaethol (ac eithrio'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r Cynulliad ei hun). Mae'n rhaid caffael oddi wrth Senedd y DU y cymhwysedd i ddeddfu, a hynny fesul darn. Mewn geiriau eraill, mae cymhwysedd yn tyfu'n gronnol. O ran ei natur felly, dim ond yn araf y mae'n datblygu. Mae'r broses o gaffael cymhwysedd deddfwriaethol wedi ei chymharu â gwneud jig-so; mae'r Cynulliad yn gofyn i Senedd y DU am bob darn o'r jig-so, ac yn gosod y darnau hynny at ei gilydd yn raddol i greu, yn y pen draw, lun o sut bydd ei gymhwysedd deddfwriaethol yn edrych pan fydd y Cynulliad wedi caffael pwerau llawn ar gyfer gwneud deddfwriaeth sylfaenol.

Mae dau lwybr y gall y Cynulliad eu dilyn i gaffael cymhwysedd i ddeddfu, sef, yn gyntaf, ei gael o dan Ddeddfau Seneddol y DU ac yn ail ei gael drwy Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor, sy'n cael eu gwneud gan Ei Mawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor, pan yw'r Cynulliad ei hun yn gofyn am hynny a Senedd y DU yn cymeradwyo. Y Gorchmynion a wneir o ddilyn yr ail lwybr yw'r Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCOs) y byddwch wedi darllen neu glywed amdanynt yn y wasg a'r cyfryngau eraill.

Dyma ymdrin yn y lle cyntaf â llwybr Deddfau Seneddol y DU. Yn syml, mae hyn yn golygu bod Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i Lywodraeth y DU osod, o few eitem yn ei rhaglen ddeddfwriaethol, gymhwysedd i alluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar faterion yr ymdrinnir â nhw mewn cynnig deddfwriaethol gan y DU,

sef mewn Mesur Seneddol gerbron Senedd y DU. Anfantais y dull hwn yw ei fod yn hollol ddibynnol ar fod Mesur Seneddol addas ar gael yn y rhaglen ddeddfwriaethol yn San Steffan ar gyfer unrhyw flwyddyn. Os nad oes Mesur Seneddol addas, nid oes cyfle i'r Cynulliad gaffael cymhwysedd. Er bod y dull hwn felly, sy'n ymwneud â phasio Mesur Seneddol yn San Steffan yn unig heb orfod cymryd unrhyw gamau ym Mae Caerdydd, yn un uniongyrchol iawn, nid yw heb ei anhawster. Hyd yn oed pe bai Mesur Seneddol addas ar gael, mae yna berygl bob amser na chaiff ei basio yng nghwrs sesiwn ddeddfwriaethol yn San Steffan ac y bydd yn methu yn y diwedd oherwydd diffyg amser. Mae'r dull hwn hefyd yn agored i'r feirniadaeth nad yw'r Cynulliad ei hun byth yn cael y cyfle i ddadlau ynghylch y cymhwysedd y mae i'w gael neu i ystyried y cymhwysedd.

Ar y llaw arall, mae LCOs yn perthyn i'r Cynulliad ac i Senedd y DU, y naill fel y llall. Mae Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn cael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor yn sgil ystyriaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd a Senedd y DU yn Llundain. Mae'r cymhwysedd y mae Gorchymyn o'r fath yn ei roi i'r Cynulliad wedi cael ei gymeradwyo felly gan y Cynulliad ym Mae Caerdydd a dau dŷ'r Senedd yn San Steffan. Unwaith y bydd Gorchymyn o'r fath wedi ei basio gan y Cynulliad mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ei osod gerbron y Senedd o fewn 60 o ddiwrnodau neu mae'n rhaid iddo egluro pam y mae wedi dewis peidio â gwneud hynny. Mae cymhwysedd a gaiff ei greu drwy gyfrwng LCOs felly yn adlewyrchu dymuniadau'r Cynulliad ac nid yw'n ddibynnol ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Mae cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu, hynny yw i arfer y pwerau a roddir iddo gan Ddeddf 2006, yn dibynnu ar fod y Cynulliad wedi cael meysydd cymhwysedd penodol naill ai drwy un o Ddeddfau Seneddol y DU neu ar fod Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol wedi eu cymeradwyo. Yn y ddau achos, caiff y cymhwysedd a roddir ei fynegi yn y ffurf ar faterion y caniateir i'r Cynulliad ddeddfu mewn perthynas â nhw, sef materion a fewnosodir yn yr ugain o feysydd a geir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae'r ugain maes hyn

wedi eu seilio ar y swyddogaethau sydd wedi eu datganoli i Gymru dros y deugain mlynedd diwethaf. I ddechrau, rhoddwyd swyddogaethau penodol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, fel y gallai Ysgrifenyddion Gwladol olynol ddeddfu, drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru, ynghylch materion o fewn eu pŵer, mewn ffordd a oedd yn drawiadol wahanol i'w cymheiriaid cyfoes yn Lloegr. Gyda sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf 1998, trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny gan fwyaf oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol ac i'r Cynulliad Cenedlaethol, a gafodd y cymhwysedd felly i wneud is-ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd lle'r oedd Gweinidogion y Llywodraeth yn gwneud hynny ar gyfer Lloegr. Pan ddaeth trefniadau Deddf 2006 i rym, trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny eto gan fwyaf oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol ac i Weinidogion Cymru. Rhoddwyd y swyddogaethau hynny, a oedd wedi bod ar y dechrau yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn ddiweddarach yn nwylo'r Cynulliad Cenedlaethol ac sydd bellach yn nwylo Gweinidogion Cymru, i Gymru mewn dull tameidiog - nid annhebyg i'r dull y mae cymhwysedd deddfwriaethol i wneud Mesurau yn cael ei roi yn awr. Ni roddwyd erioed yr hawl i ddeddfu mewn maes cyfan. Rhoi swyddogaeth arbennig a wnaed, fel nad oedd unrhyw resymeg yn perthyn i'r swyddogaethau a oedd wedi eu trosglwyddo o San Steffan i Gymru. Yr hyn sydd gennym ni felly yn yr ugain maes o fewn Atodlen 5 i Ddeddf 2006 yw'r achlysur cyntaf pan gafodd unrhyw ymdrech wirioneddol ei gwneud i resymoli'r swyddogaethau sydd wedi eu datganoli i Gymru. Mae'r ugain maes yn ceisio disgrifio'r meysydd lle mae datganoli swyddogaethau gweithredol eisoes wedi digwydd. Cydnabyddir y gall y Cynulliad bellach fynnu'r hawl o fewn y meysydd hynny i wneud deddfwriaeth sylfaenol. Nid yw Deddf 2006 ei hun yn rhoi'r hawl honno i'r Cynulliad; dim ond rhoi'r hawl i *ofyn* am y pŵer i wneud deddfwriaeth yn y meysydd hynny y mae. Os nad oes swyddogaethau gweithredol eu natur wedi eu datganoli i Gymru, nid yw'n bosibl i'r Cynulliad arfer pwerau deddfwriaeth sylfaenol yn y maes hwnnw. Mae'r swyddogaethau gweithredol yn ategu'r meysydd a dim ond o fewn y meysydd hynny y gall y Cynulliad geisio cymhwysedd i ddeddfu.

Pan fydd y Cynulliad *yn* arfer ei gymhwysedd i wneud Mesur, er mwyn i ddarpariaethau'r Mesur fod yn ddilys, rhaid i'r darpariaethau fod yn berthnasol i un neu fwy o'r materion y mae Deddfau Seneddol y DU neu Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol wedi eu mewnosod ym meysydd Atodlen 5. Mae'r cwestiwn a yw darpariaeth yn berthnasol i un neu fwy o'r materion yn Atodlen 5 i'w benderfynu drwy gyfeirio at ddiben y ddarpariaeth, o ystyried ei heffaith o dan yr holl amgylchiadau. At hyn, i fod yn ddilys, rhaid i'r ddarpariaeth beidio â bod yn gymwys ac eithrio o ran Cymru na rhoi, gorfodi, addasu neu ddileu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, swyddogaethau sy'n arferadwy ac eithrio o ran Cymru. Yn ddarostyngedig i'r egwyddorion hynny, bydd Mesur Cynulliad yn dod yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, ond dim ond o ran Cymru y bydd yn gymwys. Golyga hyn fod llysoedd yn Lloegr yn cydnabod bod y cyfreithiau a wneir gan y Cynulliad yn gyfraith ddilys a'u bod yn gweithredu yn unol â nhw, er mai dim ond o ran Cymru y maen nhw'n gymwys. Mae Deddf 2006 hefyd yn darparu y gall Mesur Cynulliad ddarparu ar gyfer gorfodi ei ddarpariaethau, neu gymryd camau priodol eraill i wneud y ddarpariaeth yn effeithiol.

Fodd bynnag, mae pethau penodol na all Mesur Cynulliad eu gwneud. Y rhain yw'r cyfyngiadau cyffredinol a osodir gan Ran 2 o Atodlen 5. Ni all Mesur Cynulliad ddileu neu addasu unrhyw swyddogaethau sy'n perthyn i Weinidogion Llywodraeth y DU, oni chafwyd cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol priodol. Cyfyngiad mwy eto fodd bynnag yw'r ffaith na all Mesur roi neu orfodi swyddogaethau ar Weinidogion Llywodraeth y DU o gwbwl. Golyga hyn mewn gwirionedd na all y Cynulliad fynnu bod Gweinidogion Llywodraeth y DU, er mwyn rhoi'r polisi deddfwriaethol sydd y tu cefn i Fesur Cynulliad ar waith, yn gwneud unrhyw beth nad ydyn nhw'n ei wneud yn barod.

Rhoddir cyfyngiadau hefyd ar allu'r Cynulliad i greu tramgwyddau troseddol. Cyfyngir hynny at greu tramgwyddau a fyddai'n dwyn cosb, ar gollfarn ddiannod, o gyfnod o ryw flwyddyn yn y carchar neu, ar dditiad, o ddwy flynedd yn y carchar Yn yr un modd, mae cyfyngiadau'n bodoli ar ba lefel o

ddirwy y gall y Cynulliad ei rhagnodi mewn cysylltiad â thramgwyddau troseddol y mae'n eu creu.

Er bod y Cynulliad yn gyffredinol yn gallu diwygio Deddfau Seneddol y DU neu eu diddymu mae rhai Deddfau na all gyffwrdd â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, Ddeddf Hawliau Dynol 1998; Deddf Diogelu Data yr un flwyddyn a Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Ymhellach, nid yw'n agored i'r Cynulliad addasu'r darpariaethau a geir yn Neddf 2006 ei hun. Er bod rhai eithriadau i'r rheol honno o ran yr iaith Gymraeg , nid yw'n agored i'r Cynulliad ddeddfu ar yr holl faterion sy'n ymwneud â'i ddefnydd ef ei hun o'r iaith, nac ar y materion sy'n ymwneud â'r defnydd a wna Comisiwn y Cynulliad a Gweinidogion Cymru ohoni. Felly, er bod yr iaith Gymraeg yn un o'r ugain maes y mae'r Cynulliad yn gallu gofyn am gael cymhwysedd deddfwriaethol ynddyn nhw, mae rhai pethau na fyddai'n gallu eu gwneud hyd yn oed pe bai'n caffael y cymhwysedd hwnnw – o leiaf fel y mae pethau ar hyn o bryd o dan Ddeddf 2006.

Caffael Cymhwysedd Deddfwriaethol

Rwy'n mynd i droi'n awr at broses caffael cymhwysedd gan y Cynulliad i ddeddfu mewn cysylltiad â mater penodol - yn yr achos hwn yr iaith Gymraeg - a sut y caiff y cymhwysedd hwnnw ei arfer wedyn wrth basio Mesur Cynulliad. Byddaf hefyd yn nodi'r cyfleoedd sy'n bodoli o fewn y prosesau hyn ar gyfer bwydo i mewn syniadau, pryderon a sylwadau gan unigolion a chyrff mewn cysylltiad â'r cymhwysedd y mae'n fwriad gan y Cynulliad geisio amdano ac mewn cysylltiad â sut y mae'n bwriadu arfer y cymhwysedd hwnnw drwy basio Mesur.

Yn y lle cyntaf, caffael cymhwysedd drwy gyfrwng LCO.

Byddaf yn ymwneud yn y fan hon â'r llwybr y byddai cais gan Lywodraeth y Cynulliad am gymhwysedd deddfwriaethol yn ei ddilyn. Gan mai polisi datganedig y llywodraeth glymblaid mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, fel y'i mynegir yn y ddogfen 'Cymru'n Un', yw caffael ac arfer cymhwysedd

deddfwriaethol ym maes yr iaith Gymraeg, dyma gymryd LCO sydd â'r bwriad o wireddu'r polisi hwnnw yn enghraifft. Unwaith y bydd y polisi sydd i'w ddilyn wedi ei lunio'n llawn ac y bydd Gweinidogion Cymru wedi cytuno arno, bydd y cyfreithwyr, gan gynnwys staff fy swyddfa i, sef Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol, yn drafftio Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i'w gyflwyno i'r Cynulliad. Fodd bynnag, drwy gytundeb â Llywodraeth y DU, mae'n arferol ymgynghori â Llywodraeth y DU ynghylch y Gorchymyn drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad. Mae hyn yn gwneud synnwyr oherwydd, gan fod yn rhaid i'r LCO gael ei basio gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, bydd cytundeb Llywodraeth y DU yn golygu y bydd yn sicr o gael cefnogaeth Llywodraeth y DU yn y cyfnod hwnnw o'r broses. Heb y gefnogaeth honno, byddai perygl y byddai'r LCO yn cwympo wrth y clwydi olaf. Felly, mae'r ddwy Lywodraeth yn cyrraedd consensws barn mewn cysylltiad â'r Cymhwysedd Deddfwriaethol y gwneir cais amdano cyn i'r Gorchymyn drafft gael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad.

Pan gaiff y Gorchymyn ei gyflwyno, y peth cynta sy'n digwydd yw bod pwyllgor i'r Cynulliad yng Nghaerdydd a'r Pwyllgor Materion Cymreig yn San Steffan yn craffu arno yn y cyfnod craffu cyn deddfu. Mae'r ddau bwyllgor hyn yn ystyried a yw'r cymhwysedd y gwneir cais amdano'n briodol.

Y cyfnod craffu cyn deddfu yw'r cyfle cynta sydd gan y cyhoedd i wneud sylwadau ar y cynnig ceisio am gymhwysedd. Mae'n bwysig iawn pwysleisio nad trafod y dull y bydd y cymhwysedd hwnnw'n cael ei arfer os llwyddir i'w gael a wneir yn y cyfnod hwn. Yn y cyfnod hwn yr hyn sy'n cael ei drafod yw a ddylai'r Cynulliad gael y pŵer i wneud deddfwriaeth mewn perthynas â'r materion a geir yn yr LCO. Os bydd y cais am gymhwysedd yn llwyddo, bydd y Cynulliad yn cadw'r cymhwysedd o hynny ymlaen. Nid cymhwysedd ar gyfer un achlysur neu un Mesur yn unig yw e, ond cymhwysedd parhaol, sy'n golygu y bydd gan y Cynulliad wastad yr hawl i ddeddfu mewn perthynas â'r materion hynny. Y cwestiwn y mae angen ei ateb felly yn y cyfnod hwn gan y rhai sy'n ceisio eiriol dros neu hyrwyddo safbwynt penodol yw a yw'r pwerau y

mae'r Cynulliad yn eu ceisio yn ddigon eang i fodloni'r math ar amcanion y byddent am weld y Cynulliad yn eu bodloni, neu fel arall a yw'r pwerau'n fwy eang nag y byddai'n briodol i'r Cynulliad eu harfer o fewn Cymru, a dibynnu ar eu safbwynt. Mae Pwyllgorau'r Cynulliad, sy'n rheolaidd yn craffu cyn deddfu, yn gwahodd tystiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd a chyrff o ran y cymhwysedd a geisir ac yn aml yn gwahodd y rhai sy'n cyflwyno tystiolaeth i ymddangos gerbron y pwyllgor i eiriol dros eu hachos. Dyma gyfle gwych i fynegi safbwyntiau'n uniongyrchol i'r Cynulliad ynghylch y cymhwysedd y mae'n ei geisio mewn cysylltiad â mater penodol.

Mae Pwyllgor y Cynulliad a'r Pwyllgor Materion Cymreig ill dau yn cyflwyno adroddiadau ar yr LCO drafft ac mae'n agored i Lywodraeth y Cynulliad addasu'r gorchymyn yn sgil yr adroddiadau hynny. Gallai'r ddau bwyllgor gyfarfod mewn sesiwn ar y cyd er nad yw hyn wedi digwydd yn y dull a ragwelwyd pan ddaeth darpariaethau Deddf 2006 i rym. Pan fydd hynny wedi ei wneud, caiff yr LCO drafft ei gyflwyno'n ffurfiol wedyn i'r Cynulliad er mwyn i'r Cynulliad ei gymeradwyo. Gwneir hynny drwy gynnal pleidlais o'r Aelodau Cynulliad. Yna mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol 60 o ddiwrnodau i osod yr LCO gerbron y Senedd yn San Steffan, neu mae'n rhaid iddo egluro pam y mae wedi penderfynu peidio â gwneud hynny. Pan gaiff yr LCO ei osod gerbron dau dŷ'r Senedd yn San Steffan, os byddan nhw yn ei basio - ac nid oes ganddynt bŵer i ddiwygio'r LCO yn y cyfnod hwn, dim ond ei dderbyn neu ei wrthod - mae e wedyn yn mynd at EI Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i'w gymeradwyo, a'r gymeradwyaeth hon sy'n nodi rhoi'r cymhwysedd a geisir i'r Cynulliad.

A'r Cynulliad bellach wedi caffael y cymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas â materion a geir yn yr LCO, gall yn awr ddeddfu drwy Fesur mewn perthynas â'r materion hynny. Eto, o gymryd yn enghraifft ddarn o ddeddfwriaeth a noddir gan y Llywodraeth, caiff Mesur drafft ei baratoi sy'n ymgorfforiad o bolisi'r Llywodraeth ar y mater a bydd y Mesur hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad er mwyn iddo gynnal dadl arno. Eto datblygodd yr arfer o roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd a chyrff fwydo i mewn eu safbwyntiau i'r broses drwy

gyfrwng ymgynghoriad. Gallai ymgynghoriad o'r fath ddigwydd, er enghraifft, cyn i'r Mesur gael ei ddrafftio. Ymgynghoriad ar bolisi fyddai hwn, a'r Llywodraeth yn gofyn am gael gwybod beth yw dymuniadau'r genedl cyn penderfynu ar gynnwys y Mesur. Ar y llaw arall, os yw polisi'r Llywodraeth wedi ei benderfynu ac os y cwestiwn allweddol yw sut y mae rhoi effaith i'r polisi, gall fod mai ar ôl i'r Mesur gael ei ddrafftio y cynhelir yr ymgynghoriad ac y bydd y Mesur drafft ei hun yn destun ymgynghoriad.

Os cynhelir ymgynghoriad o'r fath, ar ôl yr ymgynghoriad hwnnw y caiff y Mesur ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Cynulliad, pan fydd cyfle wedi bod i ddiwygio'r drafft yng ngoleuni sylwadau y mae'r Llywodraeth wedi eu hystyried a'u derbyn. Cyn i'r Mesur gael ei gyflwyno, bydd y Llywydd a'i swyddogion yn craffu arno er mwyn sicrhau bod yr hyn y mae'r Mesur yn ei gynnig yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Llywydd, bydd y Mesur yn cychwyn ar ei daith drwy'r Cynulliad. Fel arfer mae'r daith ar ffurf pedwar cyfnod, er ei bod yn bosibl hepgor y cyntaf o'r cyfnodau hynny os oes ymgynghoriad wedi ei gynnal, gan mai sefydlu'r pwyllgor a chanddo bwerau i ofyn am dystiolaeth gan aelodau o'r cyhoedd a chyrff, ac i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ei gasgliadau, yw cyfnod un. Dyma gyfle arall eto i'r cyhoedd fynegi eu safbwyntiau mewn perthynas â deddfwriaeth y Cynulliad.

Ar ôl i gyfnod 1 ddod i ben, aiff y Mesur ymlaen i gyfnod 2 pan fydd pwyllgor o aelodau'n craffu arno ac yn awgrymu gwelliannau. Gall y pwyllgor ei hun wneud gwelliannau i'r Mesur yn y cyfnod hwn cyn ei ddychwelyd i'r Cynulliad ar gyfer cyfnod 3. Yng nghyfnod 3 ceir cyfle i wneud gwelliannau pellach – y tro hwn gerbron y Cynulliad ei hun cyn i'r Mesur fynd yn ei flaen i gyfnod 4 sef dadl ynghylch ei gymeradwyo'n derfynol. Os caiff ei dderbyn yng nghyfnod 4, aiff y Mesur at Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, a phan fydd y Cydsyniad Brenhinol wedi ei roi, bydd y Mesur yn dod yn gyfraith.

Rwy'n gobeithio bod yr hyn rwy' wedi ei ddweud yn dangos sut mae'r broses gwneud deddfwriaeth o dan Ddeddf 2006 yn gweithio a hefyd sut gall y cyhoedd gyfrannu at y broses honno yn ystod y gwahanol gyfnodau, gan

gynnwys y cyfnod o graffu cyn deddfu o ran LCOs ac, o ran Mesurau, y cyfnod ymgynghori cyn deddfu ynghyd â thrafodion cyfnod 1.

Nid proses syml mohoni ac os bod y rhai sydd â buddiant mewn cyfrannu at raglen ddeddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno cyfrannu, mae'n bwysig iddynt gael gwybodaeth drylwyr o'r cyd-destun ar gyfer gwneud hynny. Rwy'n gobeithio y bydd fy nghyflwyniad y bore 'ma wedi cyfrannu at greu cyd-destun o'r fath a 'mod i drwy hynny wedi hwyluso cyfraniadau effeithiol ynghylch materion deddfwriaethol cyfredol ac eraill.